Rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth

Y Gwasanaeth Pensiwn
Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

● Nodiadau ar sut i gael rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth

○ Pwy all gael rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth

Gallwch gael rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth os ydych fwy na 30 diwrnod o gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwn yn prosesu eich cais.

○ Y wybodaeth a gewch o'ch rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth

Bydd eich rhagolwg yn dweud wrthych faint rydych yn debygol o gael pan rydych yn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth. Os oes gennych briod neu bartner sifil nid yw'n cynnwys unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth iddynt hwy

Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth
Dyma'r rhan o'ch Pensiwn y Wladwriaeth sydd yn seiliedig ar y cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) rydych yn eu talu, neu a gewch fel credydau, yn ystod eich bywyd gwaith.
Bydd eich rhagolwg yn rhoi gwybod i chi ar brisiau heddiw beth yw:

- swm Pensiwn y Wladwriaeth efallai byddwch yn ei gael pan rydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, yn seiliedig ar eich cyfraniadau YG cyn belled, a
- swm Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth efallai byddwch yn ei gael pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, yn seiliedig ar yr hyn y gallwch ei ennill cyn i chi ymddeol.

Bydd eich rhagolwg hefyd yn rhoi gwybod i chi os oes unrhyw beth y gallwch ei wneud i wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth. Os oes gennych ychydig neu ddim Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ac mae gennych briod neu bartner sifi, efallai byddwch yn gallu cael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn seiliedig ar eu cyfraniadau YG hwy.

Pensiwn y Wladwriaeth Ychwanegol ac eithrio
O fis Ebrill 1978 hyd at fis Ebrill 2002, roedd Pensiwn y Wladwriaeth Ychwanegol yn rhan o'ch Pensiwn y Wladwriaeth a oedd yn dibynnu ar eich enillion. Fe'i galwyd hefyd yn Gynllun Pensiwn y Wladwraieth ar sail Enillion (SERPS). O 6 Ebrill 2002, cafodd SERPS ei ddiwygio gan gyflwyno Ail Bensiwn y Wladwriaeth i ddarparu Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol sy'n fwy hael ar gyfer pobl ar incwm isel a chymedrol, gofalwyr penodol, a phobl sydd â salwch neu anabledd hir dymor.

Bydd rhai gweithwyr yn eithrio o'r cynllun hwn i mewn i gynllun pensiwn eu cyflogwr neu gynllun pensiwn personol. Os yw hyn yn berthnasol i chi, byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi yn eich llythyr.

Bydd eich rhagolwg yn rhoi gwybod i chi ar brisiau heddiw beth yw:

- swm y Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol efallai byddwch yn ei gael pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth , yn seiliedig ar eich cyfraniadau YG cyn belled, a
- swm Pensiwn y Wladwriaeth efallai y gallwch ddisgwyl ei gael pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, yn seiliedig ar yr hyn rydych wedi ennill eisoes a beth rydym ni yn disgwyl i'ch cyfraniadau YG fod yn y dyfodol.

Budd-dal Ymddeol Graddedig
Mae'r rhan hon o'ch Pensiwn y Wladwriaeth yn dibynnu ar swm y cyfraniadau YG graddedig y gallech fod wedi'u talu rhwng 1961 a 1975 pan oedd y cynllun ar waith. Bydd eich rhagolwg yn rhoi gwybod i chi faint efallai faint fydd gwerth eich Budd-dal Ymddeol Graddedig ar brisiau heddiw.

● Nodiadau ar sut i gael rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth parhad

○ Y wybodaeth a gewch o'ch rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth parhad

Os ydych yn weddw, partner sifil yn dal yn fyw, wedi ysgaru neu mae'ch partneriaeth sifil wedi'i ddiddymu

Weithiau gellir defnyddio cyfraniadau YG eich diweddar neu gyn briod neu bartner sifil i'ch helpu i gael gwell Pensiwn y Wladwriaeth. Bydd eich rhagolwg yn rhoi gwybod i chi ar brisiau heddiw beth yw swm Pensiwn y Wladwriaeth y gallwch ddisgwyl ei gael gan ddefnyddio cyfraniadau YG eich diweddar neu gyn briod neu bartner sifil. Os bydd hyn yn rhoi gwell Pensiwn y Wladwriaeth i chi na defnyddio eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich hyn yna dangosir hyn yn eich rhagolwg.

Os ydych wedi ysgaru, neu mae eich partneriaeth sifil wedi'i ddiddymu

- Ni fyddwn yn cysylltu â'ch cyn briod neu bartner sifil, a dim ond i olrhain eu cofnod o gyfraniadau Yswiriant Gwladol y defnyddir unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni amdanynt yn **Rhan 8**.
- Bydd eich rhagolwg yn rhoi gwybod i chi hefyd beth yw swm unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth ychwanegol a gafwyd neu a gollwyd o ganlyniad i gyhoeddi gorchymyn rhannu gan y Llysoedd yn ystod gweithrediadau eich ysgariad neu ddiddymiad.

○ Sut i gael rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth

- **Mae'n bosibl i chi gael rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth arlein.** Ymwelwch a'n gwefan **www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk** a dilynwch y cysylltiadau rhagolygu Pensiwn y Wladwriaeth.
- **Gallwch ffonio'r Ganolfan Bensiwn y Dyfodol** a byddwn yn cymryd manylion eich cais dros y ffôn. Ein rhif ffôn yw **0845 3000 168**. Mae ein oriau agor o **ddydd Llun** i **ddydd Gwener** o 8am i 8pm ac ar ddydd Sadwrn o 9am i 1pm. Gellir monitro a recordio galwadau at ddibenion diogelwch ac ansawdd.
- **Gallwch lenwi BR19W.** Gwnewch yn siŵr eich bod wedi ateb pob cwestiwn sy'n berthnasol i chi a'ch bod yn llofnodi'r ffurflen ac yn rhoi'r dyddiad arni. Anfonwch y ffurflen i'r cyfeiriad isod.

Os bydd angen unrhyw help arnoch wrth lenwi'r ffurflen, cysylltwch â ni ar y rhif ffôn uchod neu ysgrifennwch atom yn:

State Pension Forecasting Team
The Pension Service
Tyneview Park
Whitley Road
Newcastle upon Tyne
NE98 1BA.

Os oes gennych anawsterau clyw neu leferydd, mae gennym wasanaeth ffôn testun gallwch ffonio ar **0845 3000 169** neu gallwch ffonio gwasanaeth BT text-direct drwy ddeialu 18001 gan ddilyn gyda'r rhif ffôn testun.

○ Beth fydd yn digwydd nesaf

Ar gyfartaledd gallai gymryd hyd at 10 diwrnod gwaith i baratoi eich rhagolwg o'r dyddiad y byddwn yn derbyn eich ffurflen gais.

Mae'n cofnodion yn hollol gyfrinachol ac ni allwn anfon eich rhagolwg at rhywun oni bai fod gennym eich caniatâd yn ysgrifenedig. Os hoffech i ni anfon eich rhagolwg at rhywun arall, ticiwch y blwch yn **Rhan 9** a llenwi **Rhan 10**.

Datgysylltwch y dudalen hon a'i chadw er gwybodaeth

Rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth

Y Gwasanaeth Pensiwn
Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

● Cais am ragolwg Pensiwn y Wladwriaeth

○ Rhan 1 Amdanoch chi

Rhowch wybodaeth amdanoch chi. Defnyddiwch PRIF LYTHRENNAU.

Llythrennau Rhifau Llythyren

Rhif Yswiriant Gwladol (YG)

Cyfenw Mr/Mrs/Miss/Ms

Enwau eraill

Pob cyfenw arall a gawsoch neu rydych yn ei ddefnyddio nawr.

Cyfeiriad

Cod post

Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth os yw'n wahanol

Cod post

Dyddiad geni / /

○ Rhan 2 Statws priodasol

Ticiwch y disgrifiad sydd yn berthnasol i chi a rhoi manylion os yn bosib. Os nad ydych yn briod mwyach neu mewn partneriaeth sifil byddwn yn gofyn i chi am fwy o wybodaeth nes ymlaen yn y ffurflen hon.

Sengl	◐	
Yn briod	◐ Dyddiad priodas	/ /
Partneriaeth sifil	◐ Dyddiad ffurfiwyd y bartneriaeth sifil	/ /
Wedi ysgaru	◐ Dyddiad ysgariad	/ /
Partneriaeth sifil wedi'i ddiddymu	◐ Dyddiad y diddymiad	/ /
Gweddw	◐ Y dyddiad y gwnaethpwyd chi'n weddw	/ /
Partner sifil yn dal yn fyw	◐ Dyddiad y bu eich partner sifil farw	/ /

● Cais am ragolwg Pensiwn y Wladwriaeth parhad

○ Rhan 2 Statws priodasol parhad

Priodas wedi'i ddirymu
◐ Dyddiad y dirymiad
Anfonwch eich tystysgrif dirymu
/ /

Partneriaeth sifil wedi'i ddirymu
◐ Dyddiad y dirymiad
Anfonwch eich tystysgrif dirymu
/ /

○ Rhan 3 Manylion cyswllt

Os ydym angen cysylltu â chi cyn i ni anfon eich rhagolwg, sut yr hoffech i ni gysylltu â chi?
Trwy lythyr i'r cyfeiriad roed yn Rhan 1 ◐
Dros y ffôn. Rhowch y rhif isod. ◐

Rhif ffôn cartref?
Cod Rhif

Rhif ffôn yn ystod y dydd, os yw'n wahanol
Cod Rhif Est

Beth yw'r rhif hwn?
Gwaith ◐ Symudol ◐ Ffôn testun ◐

Gallwn anfon eich rhagolwg yn Gymraeg neu Saesneg. Pa iaith sydd orau gennych?
Dim ond os ydych yn byw yng Nghymru y gallwn anfon rhagolwg i chi yn Gymraeg.
Cymraeg ◐
Saesneg ◐

Gallwn anfon gwybodaeth atoch mewn braille neu brint bras.
Ticiwch y blwch os yw'n well gennych gael un o'r dewisiadau yma.
Braille ◐
Print bras ◐

○ Rhan 4 Beth rydych yn ei wneud nawr

Ticiwch yr holl flychau sydd yn disgrifio beth rydych yn ei wneud nawr.

a Gweithio i gyflogwr ◐

b Gweithio i gyflogwr ac yn cael Credyd Treth Gwaith ◐

c Hunangyflogedig ◐

ch Hunangyflogedig ac yn cael Credyd Treth Gwaith ◐

d Ddim yn gweithio ◐

e Cael Tâl Salwch Statudol ◐

f Wedi cofrestru i gael Lwfans Ceisio Gwaith ◐

ff Cael Budd-dal Analluogrwydd ◐

g Cael Lwfans Cyflogaeth a Cymorth ◐

ng Cael Lwfans Gofalwr a alwyd Lwfans Gofal Analluedd yn flaenorol ◐

h Cael Lwfans Anabledd Difrifol ◐

Ynglŷn â chyfraniadau YG
Os gwnaethoch roi tic yn unrhyw un o'r blychau a i ch, mae angen i ni gael gwybod am y cyfraniadau YG rydych yn eu talu.

Os gallwch wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy dalu cyfraniadau gwirfoddol Dosbarth 3, byddwn yn rhoi gwybod i chi am hyn yn eich rhagolwg.

● Cais am ragolwg Pensiwn y Wladwriaeth parhad

○ Rhan 4 Beth rydych yn ei wneud nawr parhad

Ynglŷn â chyfraniadau YG parhad

Ticiwch **bob** blwch sy'n berthnasol i chi.

Talu cyfraniadau YG cyfradd llawn ◐

Talu cyfraniadau YG cyfradd gostyngol i wraig briod neu wraig weddw ◐

Talu cyfraniadau YG hunangyflogedig Dosbarth 2 ◐

Talu cyfraniadau YG gwirfoddol Dosbarth 3 ◐

Ddim yn talu cyfraniadau YG ◐

Os ydych yn gweithio i gyflogwr, nodwch eich enillion cyfredol cyn treth ac Yswiriant Gwladol.

£

Bob wythnos ◐

Bob mis ◐

Bob blwyddyn ◐

○ Rhan 5 Byw dramor

Os nad ydych wedi byw dramor ewch i **Rhan 6**.
Os ydych wedi byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig ers oedran 16, dywedwch wrthym ple rydych wedi bod. Peidiwch a chynnwys gwyliau na chyfnodau gwasanaeth yn y lluoedd arfog.
Ystyr y *Deyrnas Unedig* yw Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Ticiwch y blwch sy'n berthnasol i chi.

Awstralia – rhowch ddyddiadau ◐ o / / i / /

Canada ◐

Seland Newydd ◐

Unrhyw wlad arall ◐ Pa wledydd?

● Cais am ragolwg Pensiwn y Wladwriaeth parhad

○ Rhan 6 Yn Weddw neu'n bartner sifil yn dal yn fyw?

Os nad yw hyn yn berthnasol i chi ewch i **Rhan 7**.
Os ydych yn weddw ar hyn o bryd neu yn bartner sifil yn dal yn fyw, ticiwch y blychau sydd yn berthnasol i chi.

Dywedwch wrthym os ydych yn cael neu wedi bod yn cael

Budd-dal gwraig weddw neu fudd-daliadau profedigaeth ◐

Pensiwn Rhyfel Gwraig Weddw ◐

Pensiwn Rhyfel Gŵr Gweddw ◐

Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol ◐ Faint o Fudd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol ydych chi'n ei gael bob wythnos?

£

Dywedwch wrthym hefyd os

Roeddech yn cael budd-dal profedigaeth sydd nawr wedi dod i ben ◐

Rydych wedi rhoi'r gorau i'ch hawl i Fudd-dal Gwraig Weddw yn wirfoddol ◐

Rydych wedi cael eich gwahardd rhag cael Budd-dal Gwraig Weddw ar hyn o bryd ◐

○ Rhan 7 Gwybodaeth ychwanegol

Gallwn hefyd roi gwybod i chi beth a allai ddigwydd i'ch Pensiwn y Wladwriaeth mewn gwahanol sefyllfaoedd. Os hoffech gael gwybodaeth ychwanegol yn eich rhagolwg, ticiwch y pethau yr hoffech gael gwybod amdanynt. Os na, ewch i **Rhan 8**.

Os byddwch yn gohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth ◐ Rhowch wybod i ni i pa ddyddiad rydych eisiau gohirio gwneud eich cais am Bensiwn y Wladwriaeth / /

Os byddwch yn rhoi'r gorau i weithio cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ◐ Rhowch wybod y dyddiad y gallwch roi'r gorau i weithio / /

Os byddwch yn mynd i fyw dramor ◐ Rhowch wybod i ni i ba wlad y byddwch yn debygol o fynd iddi

Os bydd eich enillion blynyddol yn newid
Peidiwch â chynnwys incwm pensiwn ◐ Rhowch wybod i ni i beth y gallant newid iddo £

Os ydych yn briod neu yn bartner sifil ond am gael ysgariad neu ddiddymu eich partneriaeth sifil yn fuan ◐ Dywedwch wrthym dyddiad disgwyliedig yr ysgariad neu ddiddymiad / /

● Cais am ragolwg Pensiwn y Wladwriaeth parhad

○ Rhan 8 Cyn statws briodasol neu sifil

Cwblhewch y rhan hyn yn unig os

- ydych yn weddw neu yn bartner sifil yn dal yn fyw
- rydych wedi ysgaru neu mae eich partneriaeth sifil wedi'i ddiddymu
- rydych am gael ysgariad neu ddiddymu eich partneriaeth sifil yn fuan neu
- mae eich priodas neu bartneriaeth sifil wedi'i ddirymu.

Os nad yw hyn yn berthnasol i chi, ewch i **Rhan 9**.
Peidiwch a llenwi y rhan hon os ydych eisoes wedi ail briodi neu ffurfio partneriaeth sifil newydd.

Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch i'n helpu i olrhain cofnod cyfraniadau eich priod neu eich partner sifil diwethaf.

Eu rhif Yswiriant Gwladol (YG) Llythrennau Rhifau Llythyren

Eu henw llawn

Eu dyddiad geni / /

Eu cyfeiriad hysbys diwethaf

Cod post

Dyddiad y gwnaethoch briodi neu ffurfio partneriaeth sifil / /

● Cais am ragolwg Pensiwn y Wladwriaeth parhad

○ Rhan 9 Beth i'w wneud nawr

Ple rydych eisiau eich rhagolwg gael ei anfon?
Ticiwch y blwch sy'n berthnasol i chi.

Ataf yn y cyfeiriad rwyf wedi'i roi yn **Rhan 1** ◐ Ewch i **Rhan 11**.

At fy nghynrychiolydd ◐ Gwelwch yr adran isod cyn mynd i **Rhan 10**.

Yn ychwanegol rydych wedi mynegi uchod eich bod eisiau eich rhagolwg i fynd at eich cynrychiolydd, ticiwch y blwch isod os ydych eisiau i'r cynrychiolydd hwn hefyd gael caniatâd i ddelio ag unrhyw ymholiadau sy'n dilyn sy'n berthnasol i'r rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth a ddosbarthwyd. Mae'r awdurdod hwn yn berthnasol i ymholiadau a wnaethpwyd i'r Ganolfan Pensiynau y Dyfodol yn unig.

Rwyf am i fy nghynrychiolydd ddelio ag unrhyw ymholiadau sy'n dilyn sy'n berthnasol i fy rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth. ◐ Ewch i **Rhan 10**.

Nodwch dim ond am y cyfnod mae eich rhagolwg yn cael ei ddal ar ein cofnodion cyfrifiadur yn unig y gallwn roi gwybodaeth i'ch cynrychiolydd. Os ydych yn gofyn am ragolwg arall yn y dyfodol, byddwch angen rhoi awdurdod arall er mwyn i ni ddarparu/trafod y rhagolwg hwnnw gyda'ch cynrychiolydd.

Rwyf yn Gorff Gweithredol Personol. Anfonwch y rhagolwg ataf fi. ◐ Ewch i **Rhan 10**.
Darparwch dystiolaeth o'ch awdurdod, er enghraifft, pŵer atwrnai.

○ Rhan 10 Eich cynrychiolydd

Rhowch fanylion eich cynrychiolydd. Os ydych yn Gorff Gweithredol Personol, rhowch eich enw a'ch cyfeiriad.

Cyfenw Mr/Mrs/Miss/Ms

Enwau eraill

Enw'r sefydliad os yw hyn yn berthnasol

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn yn ystod y dydd Cod Rhif Est

Rhif ffacs Cod Rhif

Rhif cyfeirnod os ydych yn ei wybod

Ewch i **Rhan 11**.

● Cais am ragolwg Pensiwn y Wladwriaeth parhad

○ Rhan 11 Llofnod

Llofnodwch y ffurflen hon a rhowch y dyddiad arni.

Llofnod

Dyddiad / /

○ Olrhain pensiwn personol neu galwedigaethol sydd ar goll

Os ydych wedi newid eich swydd nifer o weithiau yn ystod eich bywyd gwaith, mae'n hawdd iawn colli cysylltiad â hen gyflogwr a'u cynllun pensiwn.

Fe all y Gwasanaeth Olrhain Pensiwn allu eich helpu os nad ydych yn sicr o'r manylion ond

- eich bod yn credu bod gennych hen bensiwn galwedigaethol neu personol, neu
- eich bod yn credu eich bod yn fuddiolwr hen gynllun pensiwn, neu
- eich bod yn gweithredu ar ran rywun arall.

Bydd olrhain eich holl fudd-daliadau pensiwn nawr yn eich helpu gydag unrhyw benderfyniadau rydych angen eu cymryd ynglŷn â chynilo ar gyfer eich ymddeoliad. Bydd hyn yn eich helpu i wneud yn sicr y byddwch yn derbyn eich holl fudd-daliadau rydych yn gymwys iddynt pan fyddwch yn ymddeol.

Fe allwch olrhain pensiwn drwy

- ein ffonio ar **0845 600 2537**. Byddwn yn gwneud yr olrhain dros y ffôn neu anfon ffurflen atoch, Oriau agor yw Dydd Llun tan Ddydd Gwener 8am tan 6pm.
- ymweld â **www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk**
  Cliciwch at y cyswllt i'r Gwasanaeth Olrhain Pensiwn a cwblhewch ein ffurflen arlein.
- ysgrifennwch at:
  Y Gwasanaeth Olrhain Pensiwn
  Tyneview Park
  Whitley Road
  Newcastle upon Tyne
  NE98 1BA

Rydym angen gwybod o leiaf enw blaenorol eich cyflogwr neu gynllun pensiwn.

Os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw, mae ganddynt wasanaeth ffôn testun gallwch ffonio ar **0845 3000 169**. Neu gallwch ddefnyddio gwasanaeth BT drwy ddeialu **18001** a dilyn gyda'r rhif ffôn testun.

● Cais am ragolwg Pensiwn y Wladwriaeth parhad

○ Gwneud cais am Bensiwn y Wladwriaeth

Pan rydych o fewn 4 mis a 4 diwrnod o oedran Pensiwn y Wladwriaeth anfonir llythyr atoch a llyfryn am eich Pensiwn y Wladwriaeth a beth sydd angen i chi ei wneud i wneud cais amdano. Cymerwch amser i ddarllen y llyfryn gan ei fod yn rhoi gwybodaeth defnyddiol am wneud eich cais.

Pan rydych yn penderfynu gwneud cais, y ffordd gyflymaf a hawsaf yw i ffonio Y Gwasanaeth Pensiwn ar **0800 731 7936** dydd Llun i ddydd Gwener o 8am i 8pm. Pan rydych yn ffonio byddwch yn cael eich tywys drwy'r broses gwneud cais, heb yr angen i chi gwblhau ffurflen gais. Gofynnir i chi am wybodaeth personol, er enghraifft dyddiadau priodas neu ysgariad, ac efallai bydd yn rhaid i chi anfon tystiolaeth o'r dyddiadau hyn. Gallwch hefyd wneud cais ar gyfer Credyd Pensiwn neu wneud cais am Fudd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor ar yr un pryd ag rydych yn ffonio i wneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth. Rydych angen cael manylion am eich incwm, cynilion, a chostau tai pan rydych yn ffonio.

Os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw, mae ganddynt wasanaeth ffôn testun gallwch ffonio ar **0800 731 7013**. Neu gallwch ddefnyddio gwasanaeth BT drwy ddeialu **18001** a dilyn gyda'r rhif ffôn testun.

○ Sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Mae'r wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch a sut rydym yn ei defnyddio yn dibynnu'n bennaf ar y rheswm dros eich busnes gyda ni. Ond fe allwn ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer unrhyw ddibenion yr Adran, sy'n cynnwys

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynnal plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- polisi pensiynau preifat, a
- cynllunio ar gyfer ymddeol.

Efallai y byddwn yn cael gwybodaeth gan eraill er mwyn gwirio'r wybodaeth rydych yn ei roi i ni ac i wella ein gwasanaethau. Efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth i rai sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft er mwyn amddiffyn yn erbyn troseddau.

I gael mwy o wybodaeth am y ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth, ymelwch â'n gwefan **www.dwp.gov.uk/welsh/privacy.asp** neu gysylltu ag unrhyw un o'n swyddfeydd.